
# Ein syniadau am wneud gwasanaethau yn decach a haws i'w defnyddio.

## Rydym eisiau gwybod beth ydych chi'n ei feddwl.

Crynodeb byr

Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council


CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL

**Ein syniadau am wneud gwasanaethau yn decach a haws i'w defnyddio.**


**Rydym eisiau gwybod beth ydych chi'n ei feddwl.**

Crynodeb byr

Mae'r crynodeb hwn yn hawdd ei ddarllen. Roedd yn defnyddio geiriau a lluniau i'ch helpu chi i ddweud wrthom nib eth ydych yn ei feddwl o'n syniadau.



Mae llawer o wybodaeth i feddwl amdano.



Efallai yr hoffech gymorth rhywun i edrych ar y crynodeb byr hwn a'ch helpu i'w ddeall.

# Rhaid i ni wneud yn siwr bod ein gwasanaethau ;

- Yn deg ac yn gyfartal i bawb.

- Yn hawdd i'w defnyddio.

- Yn helpu grwpiau bregus.

- Yn cael gwared ar bethau y gall pobl ei chael yn anodd.

- Yn gwneud i bobl deimlo eu bod yn cael eu cynnwys.

Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

# Beth rydym yn ei wneud ar hyn o bryd?

- Ceisio siarad â mwy o bobl am ein gwasanaethau.
- Gweithio i helpu pawb i ddeall ein bod ni i gyd yn unigryw.
- Helpu i wneud pethau'n decach i bobl.
- Rhoi'r cyfle i chi ddweud eich barn wrthym.
- Ei gwneud yn haws i bobl ddod o hyd i'n gwasanaethau.

# Rydym eisiau rhoi hyn i gyd mewn cynllun newydd.


CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL

CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL

2020-2024

Mae gan ein hen gynllun rai pethau pwysig ynddo.

Gallem barhau â hyn. Ond efallai ein bod yn colli rhywbeth pwysig i chi.

## Mae pump maes allweddol yn y cynllun.

1. Rhoi mwy o gyfleoedd i chi leisio'ch barn er mwyn ein helpu i ddarparu gwasanaethau sy'n decach ac yn haws eu defnyddio.

2. Helpu ein cymunedau i deimlo'n fwy diogel i fod yn nhw eu hunain ac yn gryfach gyda'n gilydd.

3. Helpu pobl i deimlo'n fwy cynnwys lle maent yn gweithio ac yn byw.

4. Sicrhau bod pobl yn cael eu talu'n deg, waeth pwy ydyn nhw.

5. Helpu i wneud ein gwasanaethau'n haws i'w defnyddio.

Byddwn yn ysgrifennu’r adroddiad a’i roi ar ein gwefan erbyn Mawrth 31 2024.

**Rydyn ni eisiau gwybod beth ydych chi’n ei feddwl.**



Rydyn ni eisiau gwybod beth yw eich barn am ein cynlluniau.



Gallwch lenwi holiadur ar ein gwefan.www.merthyr.gov.uk

Gallwch anfon e-bost atom neu ein ffonio i ofyn am gopi papur o'r holiadur.

E-bost equalities@merthyr.gov.uk



Rhif Ffôn

01685 725000



Gallwch hefyd gael copi papur o;

Y Ganolfan Ddinesig

Stryd y Castell

Merthyr Tudful

CF47 8AN

# Mwy o wybodaeth


CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL

**AMCANION CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2024-2028**

Dogfen Ymgynghori a Holiadur

*Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.*

*Os oes angen y ddogfen hon a'r holiadur arnoch mewn unrhyw fformat neu iaith arall, neu os hoffech ragor o wybodaeth, defnyddiwch y manylion cyswllt ar y dudalen nesaf.*

Os hoffech gael gwybodaeth am ein syniadau rydym wedi ysgrifennu dogfen ymgynghori hirach. Mae ar ein gwefan. Nid yw mewn darlleniad hawdd.

Os oes angen help arnoch i'w ddarllen, rhowch wybod i ni.

# Sut rydym yn gofalu am eich gwybodaeth



Ni fyddwn yn ysgrifennu eich enw nac unrhyw beth amdanoch wrth ymyl yr hyn a ddywedwch wrthym.




Os hoffech ein helpu gyda'n data gallwch lenwi ein ffurflen monitro cydraddoldeb.



Gallwch ddarllen ein hysbysiad preifatrwydd ar ein gwefan. Mae'n dweud wrthych beth rydym yn ei wneud â'ch gwybodaeth a sut rydym yn ei chadw'n breifat ac yn ddiogel.

Hysbysiad Preifatrwydd | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful